

Ysgolion yr 21ain Ganrif Dogfen Gryno 2019

**AILDDATBLYGU YSGOL UWCHRADD CANTONIAN, YSGOL
ARBENNIG RIVERBANK AC YSGOL UWCHRADD WOODLANDS**

4 Chwefror - 22 Mawrth 2019



Gellir cael y Ddogfen Gryno hon mewn Braille
Nid yw hon yn Ddogfen Ymgynghori
Mae'r Ddogfen Ymgynghori ar gael yn:
www.caerdydd.gov.uk/cynnigiondoyleavenue



Cefndir

Rydym wedi canfod angen am ragor o leoedd ysgol gynradd a rhagor o leoedd ADY cynradd ac Uwchradd ar gyfer plant ag anghenion dysgu cymhleth. Mae hyn yn rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif y Cyngor.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am gynigion i ddarparu lleoedd ysgol ychwanegol. Mae'r cynigion i amnewid adeiladau presennol Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands.

Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol o fis Medi 2023:

- Ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian o fod yn ysgol chwe ffrwd derbyn yn wyth ffrwd derbyn a hyd at 250 lle yn y chweched dosbarth. Disodli adeiladau Ysgol Uwchradd Cantonian gan gyfleusterau newydd mwy ar yr un safle;
- Ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth, sydd yn Ysgol Uwchradd Cantonian, o 20 i 30 lle. Byddai'r adeiladau ysgol newydd yn cynnwys lle mwy ac at y diben ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.
- Ehangu Ysgol Arbennig Riverbank o 70 i 140 lle. Symud yr ysgol i gyfleuster mwy, at y diben ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian.
- Ehangu Ysgol Uwchradd Woodlands o 140 i 240 lle. Symud i gyfleusterau newydd, mwy, at y diben ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian.

Byddai angen i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r newidiadau sydd yn y ddogfen hon er mwyn bwrw ymlaen.

Ble caf i ragor o wybodaeth?

Mae manylion llawn y Ddogfen Ymgynghori ar gael yma:

www.caerdydd.gov.uk/cynnigiondoyleavenue

Rydym wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio y gallwch eu mynychu os ydych eisiau i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi. Hefyd cewch ofyn cwestiynau i ni.

Mae cyfarfodydd ar wahân wedi eu trefnu ar gyfer staff a llywodraethwyr a cheir manylion y rhain yn y ddogfen ymgynghori.
Rhestrir y rhain isod.

Natur yr Ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Sesiwn Galw i Mewn	Dydd Gwener 08 Chwefror 2019 9am – 11am	Hyb Llyfrgell y Tyllgoed
Cyfarfod Cyhoeddus	Dydd Mercher 13 Chwefror 2019 7pm	Ysgol Uwchradd Cantonian
Cyfarfod Cyhoeddus	Dydd Mercher 20 Chwefror 2019 7pm	Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn
Sesiwn galw i mewn	Dydd Iau 07 Mawrth 2019 5pm – 7pm	Hyb y Llyfrgell Ganolog
Sesiwn galw i mewn	Dydd Mawrth 12 Mawrth 2019 10am - 12 hanner dydd	Hyb Llyfrgell Trelái a Chaerau
Sesiwn galw i mewn	Dydd Mercher 20 Mawrth 2019 2:30pm – 4:30pm	Hyb Llyfrgell y Tyllgoed

Sut caf fynegi fy marn?

Gallwch fynegi eich barn yn www.caerdydd.gov.uk/cynnigiondoyleavenue

Neu gallwch gwblhau'r ymatebion ar dudalennau 11 a 12 y llyfryn hwn.

Pam rydym yn cynnig y lleoedd hyn?

Lleoedd ysgol - Rhaid i bob cyngor yng Nghymru sicrhau ei fod yn cynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i'r lleoedd ysgol fodloni anghenion pob disgybl a bod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

Cyflwr ac Addasrwydd - Rhaid i'r cyfleusterau ysgol fod yn addas at y diben. Rhaid i ysgolion atgyfnerthu darparu dysg o safon uchel.

Beth yw Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif?

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhaglen fuddsoddi cyfalaf fawr, hir dymor. Ei nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Mae rhan gyntaf y Rhaglen (Band A) yn para tan fis Mawrth 2019. Cafodd tua £164 miliwn ei fuddsoddi mewn ysgolion yn y cyfnod buddsoddi Band A.

Mae ail ran yr arian hwn (Band B) i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2019. Fel rhan o hyn, mae Cyngor Caerdydd yn cynllunio rhaglen fuddsoddi werth £284 miliwn, a ariennir ar y cyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Erbyn 2024, bydd rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif Caerdydd yn creu:

- 5 ysgol uwchradd newydd neu estynedig
- 4 ysgol arbennig newydd
- 4 ysgol gynradd newydd

CANFYDDWCH FWY YN:
www.caerdydd.gov.uk/cynnigiondoyleavenue

Pam mae angen rhagor o leoedd?

Lleoedd Ysgol Uwchradd Gymunedol

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, cynyddodd nifer y disgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol uwchradd (Blwyddyn 7) yng Nghaerdydd. Awgryma'r rhagamcanion:

- y bydd nifer y disgyblion sy'n cychwyn ym Mlwyddyn 7 ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yn parhau i gynyddu, ac
- y bydd mwy o ddisgyblion na nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd hyd at fis Medi 2023 o leiaf.

Erbyn mis Medi 2024, mae'n bosibl y bydd y galw cyffredinol am leoedd gan ddisgyblion sy'n byw mewn tai presennol yn disgyn. Fodd bynnag, cynlluniwyd nifer o safleoedd tai newydd ar draws y ddinas. O ganlyniad, disgwyliwn y bydd mwy o ddisgyblion na'r nifer o leoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yn ein hysgolion drachefn, y tu hwnt i 2024.

Mae'r ardaloedd lle y rhagamcenir y bydd y diffyg lleoedd mwyaf yng nghanol y ddinas. Mae tair o'r ysgolion uwchradd yn yr ardal ganolog hon (Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Uwchradd Willows) hefyd mewn cyflwr gwael iawn.

Mae'r Cyngor y cynnig ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian i gwrdd â rhan o'r galw mwy am leoedd ysgol uwchradd.

Darpariaeth Cyflwr ar y Sbectwm Awtistiaeth (ASC)

Aiff disgyblion â Chyflwr ar y Sbectwm Awtistiaeth i leoliadau â chymorth yn ysgolion y prif lif, neu mewn Canolfannau Adnoddau Arbennig neu ysgolion arbennig.

Nid oes angen lle arbennig ar ran fwyaf y plant sydd ag ASC i ddysgu a ffynnu. Mae llawer o bobl ifanc yn mynychu ysgol y prif lif yn llwyddiannus ac yn cael cymorth arbenigol ychwanegol trwy SRB.

Disgwylir y bydd y galw am leoedd yn parhau i dyfu dros y 5-10 blynedd nesaf. Mae hyn oherwydd poblogaeth sy'n tyfu a diagnosis ASC gwell.

Mae'r Cyngor yn cynnig ateb rhan o'r galw uwch am leoedd ASC mewn Canolfannau Adnoddau Arbennig trwy ehangu'r ddarpariaeth Canolfan Adnodu Arbennig yn Ysgol Uwchradd Cantonian.

Lleoedd Ysgol Arbennig

Gan fod nifer cyffredinol y bobl sy'n byw yng Nghaerdydd wedi tyfu, mae nifer y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd wedi cynyddu.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymrwymo wrth egwyddorion cynhwysiant. Rydym yn cydnabod bod rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cael eu cefnogi orau yn eu hysgolion prif lif lleol. Fodd bynnag, nid oes modd i ddisgyblion â'r ADY mwyaf cymhleth fynd i ysgolion y prif lif. Mae angen amgylchedd arbenigol arnynt i ffynnu a gwireddu eu potensial.

Mae'r rhagfynegion yn dangos y bydd nifer y disgyblion yn parhau i gynyddu dros y 5 i 10 blynedd nesaf. Ar hyn o bryd, mae rhagor o ddisgyblion ag anghenion sylweddol y mae arnynt angen lle yn un o'r lleoliadau yn na sydd o leoedd.

Ar hyn o bryd, mae 118 disgybl yn mynychu lleoedd ysgol arbennig annibynnol ar gost o £2.8 miliwn y flwyddyn i'r Cyngor. Rydym eisiau defnyddio'r arian hwn yn fwy effeithiol. Hoffem gynnig rhagor o leoedd ysgol arbennig a Chanolfan Adnoddau Arbenigol yng Nghaerdydd i fynd i'r afael â'r galw uwch a lleihau'r ddibyniaeth ar y sector annibynnol.

Felly mae'r Cyngor yn cynnig darparu lleoedd ysgol arbennig ychwanegol i fodloni'r galw uwch. Yna, gellid addysgu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghaerdydd.

Pam ehangu a disodli Ysgol Uwchradd Cantonian?

Mae'r rhagfynegon yn awgrymu y bydd angen rhwng 120 a 150 lle ysgol uwchradd gymunedol ym mhob blwyddyn ysgol ar ardal dalgylch Ysgol Uwchradd Cantonian. Byddai hyn yn ddigon o leoedd i wasanaethu dalgylch Ysgol Uwchradd Cantonian yn unig.

Yn ogystal â'r galw hwn, mae nifer o ddatblygiadau tai ar y gweill yn neu yng nghyffiniau dalgylch Ysgol Uwchradd Cantonian. Byddai hyn yn cynyddu nifer y plant yn yr ardal yn sylweddol.

Mae Ysgol Uwchradd Cantonian hefyd mewn lleoliad da i gwrdd â'r galw dros ben am leoedd o ddalgylchoedd eraill, Mae hyn yn gydnaws â'n nod o gynyddu lleoedd yn ardal ganolog Caerdydd.

Mae safle Ysgol Uwchradd Cantonian yn un o'r rhai mwyaf yng Nghaerdydd ac yn cynnig cyfleoedd i gynnwys mwy o ddisgyblion. Byddai Ysgol Uwchradd Cantonian newydd gyda 240 o leodd ym mhob grŵp oedran yn cyfrannu at sicrhau cydbwysu'r galw a chyflenwad yn well o ran lleoedd ysgol yng Nghaerdydd.

Pam ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol?

Mae gan Ysgol Uwchradd Cantonian Ganolfan Adnoddau Arbenigol lwyddiannus ar gyfer dysgwyr â Chyflwr ar y Sbectwm Awtistiaeth. Cynigir cadw'r Ganolfan yn Ysgol Uwchradd Cantonian fel rhan o'r ysgol yn y dyfodol. Caiff nifer y lleoedd eu cynyddu'n ffurfiol o 20 i 30 lle. Bydd hyn yn sicrhau darpariaeth ar gyfer disgyblion cyfredol ac yn y dyfodol.

Yn ogystal, byddai symud Ysgol Uwchradd Woodlands i'r un safle yn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y Ganolfan Adnoddau a'r ysgol arbennig. Byddai cyfleoedd i rannu arbeniedd a chynnig datblygiad proffesiynol i staff.

Pam ehangu Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands? Pam symud yr ysgolion hyn?

Mae Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn ysgolion arbennig. Maent yn darparu amgylchedd dysgu a chwricwlwm arbenigol iawn ar gyfer plant ag anghenion dysgu cymhleth. Mae'r math hwn o amgylchedd dysgu yn hanfodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymhleth wireddu eu potensial.

Mae gan yr holl blant sy'n mynychu'r ysgolion hyn anabledd dysgu cyffredinol difrifol. Ni ellir diwallu eu hanghenion ychwanegol mewn amgylchedd llai arbenigol.

Mae ysgolion arbennig yn darparu lleoedd arbenigol i ddisgyblion ledled Caerdydd yn seiliedig ar anghenion penodol y disgyblion. Mae Ysgolion Arbennig Riverbank a Woodlands yn derbyn disgyblion o bob cwr o Gaerdydd. Mae gan bob disgybl a dderbynnir i'r ysgolion ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.

Derbyniodd y ddwy ysgol nifer gynyddol o bobl ifanc gydag ASC dros y blynyddoedd diwethaf. Dengys y rhagamcanion bod yr angen am leoedd ysgol arbennig ASC yn tyfu'n gyflymach na'r angen ar gyfer anableddau dysgu cymhleth. Mae Ysgol Tŷ Gwyn, Ysgol Hollies ac Ysgol y Deri (ym Mro Morgannwg) yn cynnig lleoedd ASC.

Nid oes digon o leoedd ASC ar gael yn yr ysgolion hyn i ateb y galw yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu ateb y galw hwn trwy gynyddu'r nifer o leoedd ysgol arbennig yn Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands.

Pam ehangu Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands? Pam symud yr ysgolion hyn?

Byddai'r ddwy ysgol arbennig yn derbyn cefnogaeth gan y Cyngor i ddatblygu eu harbenigedd ymhellach mewn perthynas ag ASC.

Cynigir bod:

- Ysgol Arbennig Riverbank yn cynyddu o 70 lle ar gyfr plant ysgol gynradd (4-11 oed) i 140 lle;
- Ysgol Uwchradd Woodlands yn cynyddu o 140 lle ar gyfer plant ysgol uwchradd (11-19 oed) i 240 lle.

Mae Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn rhan o 'Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin' ynghyd ag Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn. Ar hyn o bryd, mae'r tair ysgol arbennig hon ar yr un safle ger Parc Trelái yng Ngorllewin Caerdydd. Nid oes digon o le ar y safle presennol i ehangu'r naill neu'r llall neu'r ddwy ysgol.

Byddai angen rhoi rhagor o ystyriaeth i ddefnydd safleoedd Riverbank ac Woodlands yn y dyfodol. Byddai unrhyw benderfyniadau ynghylch y safleoedd hyn yn ystyried Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn gyfagos ac unrhyw anghenion posibl yn y dyfodol.

Pam symud Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands i safle Ysgol Uwchradd Cantonian?

- Safle Ysgol Uwchradd Cantonian yw un o'r safleoedd ysgol mwyaf yng Nghaerdydd. Mae yno lle i Ysgol Uwchradd Cantonian a dwy ysgol arbennig Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin;
- Mae'r safle yn agos at safle Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn (1.1 milltir i 1.5 milltir);
- Byddai amseroedd teithio rhwng y ddau safle yn fyr (tua 5 - 10 munud mewn car);
- Mae lle i fysiau a thacsis disgyblion ar y safle;
- Mae'r safle yn gymharol ganolog, ac mae cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus da ac mae'n agos at brif ffyrdd.

Ni fyddai symud Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn effeithio ar y Ffederasiwn. Bydd yr ysgolion yn parhau i gael eu llywodraethu gan un Corff Llywodraethu ffederal. Bydd y tair ysgol Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin yn parhau i gyflwyno gweledigaeth y Ffederasiwn i fod yn ganolfan ragoriaeth mewn addysg arbennig.

Bydd y ddwy ysgol arbennig yn parhau fel endidau ar wahân. Fodd bynnag, byddai eu symud i'r un safle ag Ysgol Uwchradd Cantonian yn rhoi'r gallu i'r holl ysgolion gydweithio. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gyfleusterau arbenigol.

Cyflwr ac Addasrwydd

Er mwyn blaenoriaethu ysgolion yn rhaglen Band B, aseswyd yr holl adeiladau ysgol a rhoi sgôr o A i D iddynt, gyda D yn cynrychioli'r cyflwr gwaelaf.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r holl gynghorau yng Nghymru y câi'r holl adeiladau ysgol a gafodd sgôr cyflwr D eu disodli/gwella. Roedd hyn yn ofyniad er mwyn derbyn buddsoddiad arian cyfalaf gan Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cafodd Ysgol Uwchradd Cantonian sgôr cyflwr D (diwedd oes).

Cafodd Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands sgôr addasrwydd D (isel iawn). Mae hyn oherwydd amgylcheddau dysgu 'anaddas'. Golyga hyn ei bod yn anodd i'r ysgolion ddarparu eu cwricwlwm yn yr adeiladau presennol.

Ceir rhagor o fanylion am y sgorau yn y ddogfen ymgynghori yn:

www.caerdydd.gov.uk/cynnigiondoyleavenue

Ansawdd a Safonau

Caiff pob ysgol yng Nghymru ei harolygu gan Estyn. Mae Estyn yn sicrhau bod yr ysgolion yn rhoi addysg o ansawdd i'r holl ddisgyblion ac y caiff yr holl blant eu cynorthwyo i ddysgu gan staff addysgu a dysgu ardderchog. Caiff ysgolion hefyd eu rhoi yn un o'r pedwar categori cymorth cod lliw (gwyrdd, melyn, oren a choch) fel rhan o System Categori Ysgolion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Ysgolion Oren a Choch yw'r rhai y mae angen y mwyaf o gymorth arnynt.

Ceir crynodeb o fanylion safonau Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Arbennig Riverbank ac Ysgol Uwchradd Woodlands yn y tabl isod, fel y nodwyd yn adroddiad Estyn ar y tair ysgol. Er y bu angen monitro'r tair yn dilyn eu harolygon, maent oll wedi gwneud cynnydd sylweddol ac wedi eu tynnu oddi ar y rhestr ar gyfer rhagor o ymweliadau dilynol.

Mae'r lliwiau a ddefnyddir yn dangos y categorïad mwyaf diweddar gan ddefnyddio Categori Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2018.

Ysgol	Dyddiad Arolwg	Safonau	Rhagolygon ar gyfer Gwella	Cynnydd
Ysgol Uwchradd Cantonian	Chwef 15	Dignol – Angen monitro	Anfoddhaol	Gorffen monitro ym mis Meh 2017
Ysgol Arbennig Riverbank	Tach 15	Digonol – Angen monitro	Digonol	Gorffen monitro ym mis Tach 2017
Ysgol Uwchradd Woodlands	Ion 16	Digonol – Angen monitro	Anfoddhaol	Gorffen monitro ym mis Rhag 17

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch ansawdd a safonau yn y ddogfen ymgynghori yn:

www.caerdydd.gov.uk/cynnigiondoyleavenue

Sut effeithid ar y ddarpariaeth ôl-16?

Ysgol Uwchradd Cantonian

Fel rhan o ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian, bwriedir cynyddu darpariaeth ôl-16 (darpariaeth chweched dosbarth). Byddai'r ysgol newydd yn derbyn hyd at 250 o ddisgyblion. Mae hyn yn gydnaws â chyfran gyfartalog y dysgwyr sy'n parhau ymlaen i ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion ar draws y ddinas.

Ysgol Uwchradd Woodlands

Mae Ysgol Uwchradd Woodlands yn ysgol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymhleth. Mae'r rhan fwyaf disgyblion Woodlands yn aros yn yr ysgol i dderbyn darpariaeth ôl-16. Mae hyn oherwydd mai prin yw'r cyrsiau lefel mynediad a ddarperir trwy golegau Addysg Bellach.

Mae ar ddysgwyr ôl-16 yn Ysgol Woodlands angen mynediad at gyrsiau lefel mynediad a chwricwlwm sy'n cefnogi datblygu sgiliau byw'n annibynnol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, trosglwyddodd nifer fach o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Woodlands i golegau arbenigol, ôl-19, neu i wasanaethau gofal dydd i oedolion. Mae'n bosibl yr aiff rhai i goleg addysg bellach. Fodd bynnag, ni fyddai mwyafrif y disgyblion yn gallu mynd i gwrs coleg ym Mlwyddyn 12

Yn y dyfodol, fel rhan o'r gwaith i weithredu'r Ddeddf ALNET, bydd yr ALL yn gweithio gyda cholegau lleol i ddatblygu opsiynau ar gyfer ystod ehangach o gynigion. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen i 50-75% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Woodlands barhau i gael mynediad i ôl-16 mewn ysgol arbennig.

Sut yr effeithid ar gymorth i ddisgyblion?

Byddai'r tair ysgol yn parhau i ddarparu cymorth sy'n briodol i anghenion unigol pob disgybl. Nid oes unrhyw wybodaeth sy'n awgrymu yr effeithid yn negyddol ar anghenion unrhyw un o'r grwpiau isod gan y newidiadau a gynigir:

- Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Disgyblion y mae'r Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt
- Disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion Lleiafrifoedd Ethnig

Manteision y cynnig

- cynydd yn nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg. Byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir;
- cynydd yn nifer y lleoedd mewn ysgolion arbennig ar gyfer dysgwyr ag ADY cymhleth 4-19 oed. Byddai'n cyfrannu at ateb y galw a ragwelir;
- cynydd yn nifer y lleoedd mewn Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr 11 - 19 oed gyda Chyflwr ar y Sbectwm Awtistiaeth;
- bydd adeiladau ysgol newydd yn gwneud yn iawn am gyflwr is-safonol yr adeiladau presennol a lleihau'r ôl-gronid cynnal a chadw;
- mae ysgolion newydd yn cynnig cyfleusterau o ansawdd uchel, sy'n gwella dewisiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion;
- adeiladau newydd sy'n hollol hygyrch, yn unol â Dedd Cydraddoldeb 2010;
- bydd cael tair ysgol ar un safle yn rhoi cyfleoedd i'r ysgolion gydweithio. Bydd cyfleoedd i rannu arbenigedd a chyfleusterau arbenigol;
- byddai cyfleusterau chwaraeon awyr agored gwell yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer ddisgyblion a'r gymuned.

Anfanteision posibl y cynnig

- mae potensial i gynyddu tagfeydd traffig o gwmpas safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw amharu posibl;
- mae'r Cyngor yn cydnabod bod y cynnig yn codi goblygiadau ar y gwasanaethau iechyd a ddarperir mewn partneriaeth â'r ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i barhau i sicrhau bod anghenion plant a aserir yn cael eu diwallu.
- gall rhai disgyblion gydag ADY weld newid yn anodd. Efallai y byddant yn teimlo bod adeilad newydd ar safle newydd yn brofiad anesmwythol. Rydym yn gwybod y bydd arnynt angen cefnogaeth wedi'i chynllunio'n ofalus i ymgynefino mewn lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi pontio o'r fath. Mae gennym brofiad o ail-leoli darpariaeth ysgol arbennig yn llwyddiannus trwy drosglwyddo i Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn a byddem yn defnyddio'r hyn a ddysgom trwy'r profiad hwn i gefnogi'r symudiadau hyn os cytunir arnynt.

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig

- mae perygl na fydd y cynnydd rhagamcanol yn nifer y disgyblion yn digwydd. Fodd bynnag, ar sail nifer y disgyblion sydd yn ysgolion cynradd Caerdydd a'r tai newydd arfaethedig mewn nifer o ardaloedd yng Nghaerdydd, mae hyn yn ymddangos yn annhebygol;
- efallai y bydd cyfyngiadau datblygu sydd heb eu nodi eto. Pe deuai unrhyw rai i'r amlwg, gallai bod goblygiadau o ran cost ac oedi. Cynhelid arolygon safle ac adroddiadau geo-dechnegol. Byddai'r rhain yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch hyn ac yn llywio strategaethau rheoli;
- efallai na ellir gwireddu'r cynnig os na chaiff arian cyfalaf Llywodraeth Cymru ei sicrhau yn ystod y cam achos busnes;
- pe na bai'r Cyngor yn cael yr arian hwn gan Lywodraeth Cymru, yna byddai'r Cyngor yn gwbl gyfrifol am yr holl gostau'r cynnig. Yn yr achos hwn, byddai opsiynau buddsoddi yn cael eu hadolygu i sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion.

Beth yw'r amserlen a fwriedir ar gyfer y datblygiad?

Bwriedir cychwyn y gwaith adeiladu yn nechrau blwyddyn ysgol 2019/2020 a'i gwblhau yn barod i ddisgyblion ddefnyddio'r cyfleusterau newydd ym mlwyddyn ysgol 2023/2024.

Sut yr effeithid ar staff?

Mae cynnydd arfaethedig yn nifer disgyblion y tair ysgol hyn. Byddai hyn yn gofyn i Gyrrff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Cantonian a Ffederasiwm Dysgu'r Gorllewin gynllunio at ofynion y gweithlu er mwyn ymateb i'r cynnydd hwn.

Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth a chanllaw i'r Gyrrff Llywodraethu er mwyn cynllunio'r gweithlu a'r prosesau recriwtio canlynol.

Bydd angen lefelau uchel o ymgynghori â staff a'r undebau llafur ynghylch ad-leoli Ysgolion Arbennig Riverbank a Woodlands. Byddai angen cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer symud o un safle ysgol i un arall. Yn ogystal, byddai angen cynnwys staff wrth ddatblygu manylebau neu gynlluniau'r adeiladau.

Mae'n bosibl y bydd goblygiadau AD o'r potensial y caiff y tair ysgol eu cyd-leoli ar un safle ysgol. Er enghraifft, trefniadau llywodraethu ar gyfer contractau gwasanaethau a rennir, megis glanhau a threfniadau rheoli ystadau. Byddai angen asesu goblygiadau llawn hyn wrth i'r cynnig fynd yn ei flaen. Bydd angen i'r Gyrrff Llywodraethu Sicrhau eu bod yn ymgynghori'n llawn â staff a chydweithwyr mewn undebau llafur.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi adborth yr ymgynghoriad hwn. Yna, bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newidiadau, bydd yn rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'.

Bydd yr hysbysiad statudol yn cynnwys manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sy'n gwrthwynebu gyflwyno ei wrthwynebiad. Bydd yn rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Bydd yn rhaid eu hanfon i'r Cyngor erbyn y dyddiad fydd ar yr hysbysiad.

Os derbynnir gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol a gyhoeddir, bydd yn rhaid i'r Cyngor gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau hyn ac ymateb y Cyngor iddynt. Câi'r Adroddiad Gwrthwynebiadau ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Mae'r cynigion hyn yn effeithio ar y darpariaeth chweched dosbarth ac felly bydd angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Golyga hyn mai Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad erfynol ynghylch bwrw ymlaen â'r newidiadau ai peidio.

Yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i bawb yr y byddai'r cynnig yn effeithio arno beth yw'r penderfyniad. Caiff hyn ei gyhoeddi yn electronig ar wefan y Cyngor.

Dweud Eich Dweud!

Beth sy'n cael ei gynnig?

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol o fis Medi 2023:

- Ehangu Ysgol Uwchradd Cantonian o fod yn ysgol chwe ffrwd derbyn yn wyth ffrwd derbyn a hyd at 250 lle yn y chweched dosbarth, yn cynnwys disodli adeiladau Ysgol Uwchradd Cantonian gan gyfleusterau newydd mwy ar yr un safle;
- Ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistiaeth, sydd yn Ysgol Uwchradd Cantonian, o 20 i 30 lle. Byddai'r adeiladau ysgol newydd yn cynnwys lle mwy ac at y diben ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol.
- Ehangu Ysgol Arbennig Riverbank o 70 i 140 lle. Symud yr ysgol i gyfleuster mwy, at y diben ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian.
- Ehangu Ysgol Uwchradd Woodlands o 140 i 240 lle. Symud i gyfleusterau newydd, mwy, at y diben ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian.

1. A ydych yn ymateb fel: Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- | | |
|---|--------------------------------------|
| <input type="checkbox"/> Rhiant | <input type="checkbox"/> Disgybl |
| <input type="checkbox"/> Llywodraethwr | <input type="checkbox"/> Aelod Staff |
| <input type="checkbox"/> Arall (manylwch) _____ | |

2. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu ac amnewid adeiladau Ysgol Uwchradd Cantonian?

Ydw Na

3. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (SRB) i ddisgyblion gyda Chyflwr Sbectrwm Awtistig (ASC)?

Ydw Na

4. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu a symud Ysgol Arbennig Riverbank i safle presennol Ysgol Uwchradd Cantonian?

Ydw Na

5. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu a symud Ysgol Uwchradd Woodlands i safle presennol Ysgol Uwchradd Cantonian?

Ydw Na

6. Os ydych yn cefnogi neu ddim yn cefnogi'r cynnig, esboniwch pam isod

7. Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu gynigion amgen i'r cynnig, rhowch fanylion isod

8. Unrhyw sylwadau eraill?

Enw _____

Cyfeiriad _____

Cod post _____

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Os ydych yn dymuno cael eich hysbysu am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori, rhowch eich cyfeiriad e-bost. Os nad ydych yn darparu cyfeiriad e-bost, ni allwn eich diweddarau.

Diolch am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth yr Ysgol, Ystafell 422, Neuadd y Sir, CF10 4UW ddim hwyrach na 22 Mawrth 2019.

Bydd Cyngor Caerdydd yn prosesu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych uchod yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth a roddir i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gall y Cyngor ei defnyddio neu ei datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Mae angen pwrpas prosesu'r data personol i gyflawni tasgau penodol er budd y cyhoedd. Gellir gofyn am unrhyw ymatebion a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid ei gwneud yn gyhoeddus, ond byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n adnabod unigolyn fel enw a chyfeiriad yn cael ei ddileu.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor: <https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>